

## PWYNTIAU GWEITHREDU TWRISTIAETH

### CYNLLUN DATBLYGU LLEOL AR Y CYD GWYNEDD & YNYS MÔN (2011 – 2026)

#### ARCHWILIAD CYHOEDDUS:

**Sesiwn Gwrandawriad 5 – Economi –  
Cyflogaeth, Manwerthu a Thwristiaeth**



CYNGOR SIR  
YNYS MÔN  
ISLE OF ANGLESEY  
COUNTY COUNCIL

#### Pwynt Gweithredu 11 (S5/PG11) – Polisi TWR1 a pharagraff 7.3.54

*Cyflwyno Newidiadau Materion sy'n Codi i:*

- (i) Egluro nad oes rhaid i gynigion gydymffurfio gyda meini prawf 4-8 i gyd.
- (ii) Ychwanegu “neu ei agosatrwydd i'r atyniad y mae'n gysylltiedig ag ef” i ddiwedd maen prawf 3.
- (iii) Ychwanegu geirfa i baragraff 7.3.54 i gyfeirio at enghreifftiau o ddatblygu sydd angen lleoliad yng nghefn gwlad.

#### Ymateb y Cynghorau:

(i) a (ii)

#### **POLISI TWR1: ATYNIADAU A CHYFLEUSTERAU YMWELWYR**

Cefnogir cynigion i ddatblygu atyniadau neu gyfleusterau ymwelwyr newydd neu i wella ac ehangu safon y cyfleusterau sy'n bodoli eisoes cyn belled â'u bod tu mewn i'r ffin ddatblygu.

Pan nad oes cyfleoedd addas ar gael tu mewn i'r ffin ddatblygu, dim ond cynigion sy'n cynnwys yr hyn a ganlyn fydd yn cael eu caniatáu:

1. Aildddefnyddio adeilad(au) presennol neu safle addas a ddefnyddiwyd o'r blaen, neu
2. Aildddefnyddio adeilad(au) presennol neu safle sydd â chyswllt agos ag adeiladau presennol eraill sy'n ffurfio rhan o gyfleuster twristiaeth presennol, neu
3. Datblygu gweithgaredd sy'n gyfyngedig i leoliad penodol oherwydd ei ddefnydd priodol o adnodd hanesyddol neu naturiol **neu ei agosatrwydd i'r atyniad y mae'n gysylltiedig ag ef.**

Bydd gofyn i'r holl gynigion gydymffurfio gyda'r holl meini prawf canlynol:

- ~~4. Lle bo hynny'n rhesymol ymarferol, gellir cael at y datblygiad trwy amryw o ddulliau teithio, yn enwedig dulliau teithio cynaliadwy megis cerdded, beicio a chludiant cyhoeddus;~~
4. Mae graddfa, math a chymeriad y datblygiad arfaethedig yn addas i'w leoliad trefol/gwledig;
5. Mae'r datblygiad arfaethedig o ansawdd uchel o ran dyluniad, gosodiad ac

## PWYNTIAU GWEITHREDU TWRISTIAETH

- edrychiad;
6. Bydd y datblygiad arfaethedig yn cefnogi ac yn ehangu'r ystod o gyfleusterau yn ardal y Cynllun;
  7. Mae'r bwriad yn cael ei gefnogi gan dystiolaeth i ddangos y byddai yna cyfleon cyflogaeth leol.

Lle y bo'n briodol, gellir cael mynediad at y datblygiad trwy amryw o ddulliau teithio, yn enwedig dulliau teithio cynaliadwy megis cerdded, beicio a chludiant cyhoeddus

(iii)

7.3.54 Mae'r polisi hefyd yn cydnabod, mewn amgylchiadau eithriadol, bod rhai atyniadau a chyfleusterau angen lleoliad yng nghefn gwlad agored, allan o'r dref, a gallai'r rhain fod yn dderbyniol o bosib pe byddent yn arwain at gyfleuster twristiaeth a buddion i gyflogaeth wledig trwy gydol y flwyddyn. Byddai'r math hwn o ddatblygiad yn un sydd â chysylltiad gyda nodweddion yr amgylchedd naturiol neu hanesyddol neu weithgaredd awyr agored ac fe allai gynnwys canolfannau ymwelwyr neu ganolfannau ddehongliad neu ddatblygiad sy'n gysylltiedig â gweithgareddau awyr agored. Fodd bynnag, ni ddylai datblygiadau fod ar draul yr amgylchedd lleol neu les y gymuned. Tu allan i'r ffiniau datblygu dylai cynigion edrych yn gyntaf ar ailddefnyddio neu ymestyn adeiladau presennol er mwyn diogelu cefn gwlad rhag datblygiadau amhriodol. Fodd bynnag, gallai atyniadau cwbl newydd gael eu caniatáu mewn ardaloedd penodol yn y wlad os gellir dangos nad oes yna safleoedd ac adeiladau dilyniannol a ffafir. Bydd angen i bob cynnig y tu allan i aneddeleodd presennol sefydlu pam fod lleoliad gwledig yn angenrheidiol.

### Pwynt Gweithredu 12 (S5/PG12) – Paragraff 7.3.54 (Polisi TWR3)

*Cyflwyno Newidiadau Materion sy'n Codi i gadarnhau nad ydi'r 10% o gynnydd yn y nifer o leiniau ddim yn rhyngodol/o reidwydd yn uchafswm. Angen cadarnhau mai 10% ydi'r man cychwyn wrth ddelio gyda cheisiadau i ymestyn safleoedd perthnasol o dan Bolisi TWR3.*

### Ymateb y Cynghorau

7.3.66 Tu allan i'r Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol a'r Ardaloedd Tirwedd Arbennig mae'n bosib y rhoddir caniatâd i gynnydd bychan yn nifer yr unedau ar safle os gellir dangos bod y bwriad yn cynnig gwelliannau tirwedd a amgylcheddol sylweddol i'r safle ac yn lleihau ei effaith ar y dirwedd. Nid yw 'bychan' o safbwynt ymestyn arwynebedd safle wedi'i ddiffinio. Fel arfer, byddai gwella gosodiad a lleoliad yr unedau, ynghyd â gwella cylchrediad mewnol, manau parcio a thirlunio yn golygu yr un nifer neu ychydig llai o unedau ar y safle. Fodd bynnag, cydnabyddir y gall fod achosion lle gallai gwelliannau tirlunio arwain at gynnydd yn y nifer o unedau. dim ond mewn perthynas â chynnydd yn nifer yr unedau. Gall hyn fod yn dderbyniol ar yr amod bod y cynnydd yn fach ac ni

## PWYNTIAU GWEITHREDU TWRISTIAETH

fydd y cynnydd yn y nifer o unedau yn creu niwed annerbyniol i edrychiad y safle. Fel rheol gyffredinol, ystyrir fod cynyddiad bras o na ddylai fod yn fwy na 10% uwchlaw'r nifer o unedau pan wnaed y cais gwreiddiol yn fychan. Fodd bynnag, wrth gyfeirio at y canllaw cyffredinol yma, bydd pob cais yn cael ei asesu yn ôl ei deilyngdod. ~~Fodd bynnag,~~ oherwydd yr amrywiaeth sylweddol ym maint, natur a lleoliad y safleoedd ~~asesir pob cais yn ôl ei haeddiant o fewn y canllaw cyffredin hwn.~~